# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 5

DARPARIAETH ATODOL

## PENNOD 6

ACHOSION ARBENNIG

*Grwpiau corfforaethol*

### 78 Amodau ar gyfer dynodi yn aelod o grŵp

(1) Ni chaniateir dynodi corff corfforaethol yn aelod o grŵp onid yw—

(a) yn cyflawni gweithrediadau trethadwy neu'n bwriadu gwneud hynny, a

(b) o dan yr un rheolaeth â phob aelod arall o'r grŵp.

(2) Mae dau gorff corfforaethol neu ragor o dan yr un rheolaeth os yw—

(a) un ohonynt yn rheoli'r lleill i gyd,

(b) un corff corfforaethol neu unigolyn yn eu rheoli hwy i gyd, neu

(c) dau unigolyn neu ragor sy'n rhedeg busnes mewn partneriaeth yn eu rheoli hwy i gyd.

(3) At ddibenion is-adran (2)—

(a) mae un corff corfforaethol ("A") yn rheoli corff corfforaethol arall ("B") os yw—

(i) y pŵer i reoli gweithgareddau B yn cael ei roi i A gan neu o dan ddeddfiad, neu

(ii) A yn gwmni daliannol i B;

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 78. (See end of Document for details)*

(b) mae unigolyn neu unigolion yn rheoli corff corfforaethol pe byddai neu pe byddent, pe bai'r unigolyn neu'r unigolion yn gwmni, yn gwmni daliannol i'r corff.

(4) Yn is-adran (3), mae i "cwmni daliannol" yr ystyr a roddir i "holding company" gan adran 1159 o Ddeddf Cwmnïau 2006 (p. 46), ac Atodlen 6 iddi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 78 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 78 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(w)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 78.